## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 15 Chwefror, 2021

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mawrth, 16 Chwefror, 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mawrth, 23 Chwefror, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mercher, 24 Chwefror, 2021.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws, (Cadeirydd) R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes MBE, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y. b. tan 10:20 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd baenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2021 a'r 25 Ionawr, 2021 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mawrth i Hydref, 2021 gyda'r newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2021/22**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**<br><br>• **Y cynnydd rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasglu dros 51 wythnos.**<br>• **Cynnydd o 0.45% + £2.00 yr wythnos yn yr holl renti sydd islaw'r bandiau rhent targed cyfredol er mwyn parhau i weithio tuag at gwrdd â'r rhent targed.**<br>• **Cynnydd o 0.45% yn yr holl renti sydd ar darged neu'n uwch.**<br>• **Cynnydd o 13c yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.**<br>• **Y taliadau gwasanaeth fel y nodwyd yn adran 3.3 o'r adroddiad i'w codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**<br>• **Pennu Ffioedd Rhent Canolraddol ar 80% o gostau rhent y farchnad agored neu hyd y Lwfans Tai Lleol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gosod Rhent Tai y CRT a Thaliadau Gwasanaethau Tai am 2021/22** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |